

Brexit a'n Tir : Chwalu'r mythau am gynigion Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r cymorth i ffermwyr



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

MYTH: Nid nawr yw'r amser i newid. Mae'r system fel ag y mae hi'n ddigon da ar gyfer ar ôl Brexit.

FFAITH: Mae bod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd yn golygu bod ffermwyr wedi cael marchnad anferth, didariff a hawdd allforio iddi. Ond oherwydd Brexit, mae'r ffordd y byddwn yn masnachu ag Ewrop a gweddill y byd yn newid. Nid ydyn ni'n gwybod eto beth fydd natur pethau ar ôl Brexit ond gallwch fod yn sicr y bydd pethau'n newid. Rydyn ni'n gwybod hefyd bod amaethyddiaeth yn aml yn bwnc anodd wrth ddatblygu cytundebau masnach rydd.

Nid yw Cynllun y Taliad Sylfaenol wedi'i dargedu'n ddigon penodol i allu ymateb i her Brexit. Mae angen inni newid y ffordd rydyn ni'n helpu ffermwyr os ydyn ni am eu gweld yn llwyddo mewn byd masnachol newydd.

Ond fel yr ydyn ni eisoes wedi dweud, chawn ni ddim gwared ar Gynllun y Taliad Sylfaenol tan y bydd y cynllun newydd ar ei draed. Ni chaiff taliadau i ffermwyr eu newid chwaith heb ymgynghoriad llawn yn 2019.

MYTH: Mae Llywodraeth Cymru am i ffermwyr gynhyrchu nwyddau cyhoeddus yn lle bwyd.

FFAITH: Mae'n hanfodol bod Cymru'n cynhyrchu bwyd. Dyna un o egwyddorion sylfaenol y diwygio hwn. Lle bo cynhyrchu'n gynaliadwy, rydyn ni am fuddsoddi mewn ffermwyr sy'n cynhyrchu bwyd er mwyn eu gwneud yn fwy cystadleuol ac effeithlon.

Rydyn ni wedi cynnig **Cynllun Cadernid Economaidd** newydd i fuddsoddi ym musnesau ffermydd iddyn nhw barhau i gynhyrchu bwyd o'r ansawdd uchaf. Mae angen inni wneud ffermydd yn fwy cynhyrchiol h.y. cynyddu'r elw y mae ffermwr yn ei wneud o bob uned o gynhyrchiant. Dim ond trwy fuddsoddi y cawn gynnydd sylweddol yn ein cynhyrchiant - nid trwy gymhorthdal.

Ond ni fydd cynhyrchu bwyd yn unig yn ddigon i gynnal rhai busnesau fferm. Rydyn ni felly'n cynnig **Cynllun Nwyddau Cyhoeddus** newydd i greu incwm newydd ystyrlon i ffermwyr sy'n gallu darparu'r gwasanaethau amgylcheddol na all y farchnad eu cynnal.

MYTH: Mae hyn yn rhoi mantais i'n cystadleuwyr agosaf.

FFAITH: Ni fydd cadw Cynllun y Taliad Sylfaenol yn ein helpu i gystadlu gan nad yw'n gwneud unrhyw beth i wella perfformiad y fferm. Nid yw'n gwobrwyo ffermwyr am wella'u perfformiad na'u canlyniadau nac yn cynnig cymhelliant i wella.

I gystadlu'n gynaliadwy, rhaid gwella cynhyrchiant, cynyddu potensial y farchnad ac arallgyfeirio . Rydyn ni am fuddsoddi yn yr holl bethau hyn.

Mae Llywodraeth y DU yn symud at system fydd yn talu ffermwyr Lloegr am ddarparu nwyddau cyhoeddus. Bydd Ewrop yn debygol o ostwng taliadau'r PAC wrth i'r Comisiwn Ewropeaidd ei hun geisio diwygio'r drefn.

MYTH: Rydyn ni am weld ffermwyr yn troi'n rheolwyr tir.

FFAITH: Mae'r rhan fwyaf o reolwyr tir Cymru eisoes yn ffermwyr. Rydyn ni am i ffermwyr barhau i ffermio.

Trwy'r Cynllun Nwyddau Cyhoeddus, rydyn ni hefyd am wella ansawdd y dŵr, pridd a bioamrywiaeth Cymru gyfan. Dim ond ffermwyr ar dir ffermio all wneud hynny.

MYTH: All ffermwyr ddim gwneud bywoliaeth o ddarparu nwyddau cyhoeddus

FFAITH: Bydd y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus yn gwneud mwy na digolledu ffermwyr am "incwm a gollwyd a'r costau a ysgwyddwyd", gan dalu incwm incwm ystyrlon iddyn nhw. I rai, bydd y taliadau am nwyddau cyhoeddus yn rhan fawr o'u hincwm.

Mae gan bob fferm y potensial i ddarparu nwyddau cyhoeddus. Cyn belled â bod ffermwr yn barod i reoli'i dir yn wahanol, bydd y cynllun nwyddau cyhoeddus ar gael iddo, byddwn yn dylunio'r cynllun i wneud yn siŵr o hynny. Hyd yn oed ar fferm sydd wedi'i gwella'n llwyr at ddiben amaethyddol, bydd yna amrywiaeth o opsiynau posib y gellwch eu cynnal o newid ychydig ar y ffordd rydych yn ei ffermio. Penderfyniad busnes felly yw faint y mae ffermwr am fod yn rhan ohono.

MYTH: Ni fydd y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus yn talu am y nwyddau cyhoeddus sydd eisoes yn cael eu darparu

FFAITH: Byddwn yn talu ichi barhau i ofalu am y nwyddau cyhoeddus rydych eisoes yn eu darparu. Er enghraifft, byddwn yn talu ichi barhau i ofalu am goetir brodorol neu gynefin arall sy'n bod eisoes.

Mae llawer o ffermwyr wedi bod yn rheoli tir sydd wedi bod yn cynhyrchu nwyddau cyhoeddus ers degawdau, yn aml heb dâl am wneud. Rydyn ni am newid hyn.

MYTH: *Bydd y cynlluniau newydd yn fwy cymhleth.*

FFAITH: Mae rheoliadau'r UE yn golygu bod y system bresennol yn gymhleth a gall unrhyw ffermwr sydd wedi gorfod llenwi ffurflen y SAF gadarnhau hynny. Ar gyfer y cynlluniau newydd, rydyn ni am i Lywodraeth Cymru ddelio â'r cymhlethdodau, nid y ffermwr.

Ar ôl cytuno ar gontract nwyddau cyhoeddus, mater hawdd fydd cadw golwg ar y canlyniadau a thalu'r taliadau. Gallwn fod yn llai haearnaidd ar ôl gadael yr UE.

MYTH: Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu: nid yw hwn yn ymgynghoriad go iawn

FFAITH: Nid yw peidio â newid yn opsiwn. Mae'n glir nad yw'r cynlluniau presennol yn gwireddu'n hamcanion felly rydyn ni'n awyddus i glywed eich syniadau ar gyfer cynlluniau newydd.

O gofio hyn, rydyn ni'n eich annog i ystyried ein hymgyngoriad 'Brexit a'n Tir ' ac rydyn ni'n disgwyl ymlaen at glywed eich barn ynghylch beth i'w gynnwys mewn cynlluniau newydd. Bydd yr ymgynghoriad yn cau ar 30 Hydref 2018.

MYTH: Mae'r cynlluniau newydd ar gyfer pobl nad ydyn nhw'n ffermwyr

FFAITH: Mae'r cynlluniau newydd ar gyfer unrhyw ffermwr sydd am gynhyrchu mwy o fwyd a chynhyrchu mwy o nwyddau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o dir Cymru'n dir ffermio ac felly, rhaid i unrhyw gynllun newydd weithio er lles ffermwyr.

Rhaid creu cynlluniau fydd yn cadw ffermwyr ar y tir a chadw cymunedau gwledig yn gyfan.